**EITEM AR YR AGENDA: 5**

## GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU
## ADRODDIAD AR GYFER PANEL GWEITHREDOL YR AWDURDOD TÂN AC ACHUB

| | |
|---|---|
| DYDDIAD: | 13eg Rhagfyr 2005 |
| ADRODDIAD GAN: | **Paul Claydon, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol – Cyflwyno'r Gwasanaethau** |
| DIBEN YR ADRODDIAD: | Cyflwyno i'r aelodau Gynllun Gweithredu 3edd Flwyddyn drafft y Cynllun Integredig Rheoli Risg yr Awdurdod Tan. |

1. **CYFLWYNIAD**

1.1 Yn Ebrill 2004, cyhoeddodd yr Awdurdod Tan ei Gynllun Integredig Rheoli Risg o'r enw Atal, Gwarchod, Ymateb.

1.2 Er mwyn cadw momentwm y drefn o adnabod a lleihau risgiau i'n cymunedau, lluniwyd cynllun gweithredu trydedd flwyddyn wedi trafodaethau yng ngweithgor y Cynllun Risg.

1.3 Diben y papur hwn yw cyflwyno'r cynllun drafft, a gwneud cais iddo ddod gerbron cyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub ar 19eg Rhagfyr 2005 i'w gymeradwyo ar gyfer ymgynghoriad.

1.4 Mae Arweiniad eto i ddod, ac mae wrthi'n cael ei lunio gan Lywodraeth y Cynulliad. Mae'r Arweiniad hwn yn debygol o effeithio ar drefn Cynllunio Integredig Rheoli Risg ar gyfer y flwyddyn 2007/08.

2. **TREFN Y CYNLLUN RISG**

2.1 Mae'n bwysig nodi na ddaeth unrhyw arweiniad penodol ar Gynlluniau Risg gan Lywodraeth y Cynulliad (gweler 1.4 uchod). Mae'r Cynulliad wedi nodi bod yr adolygiad ar yr Arweiniad ar fin cael ei gyhoeddi.

2.2 Dyma'r meysydd gwaith arfaethedig yng nghynllun gweithredu'r 3edd flwyddyn:-

- Rhoi'r Adolygiad o'r Peiriannau Arbennig ar waith
- Codi tâl am Systemau Larwm Awtomatig
- Treialu Cyd-Ymateb
- Diogelwch Tan Cymunedol ar gyfer eiddo mewn ardaloedd gwledig
- System Lleoli Awtomatig
- Rhaglen Hygyrch ar gyfer Monitro Perfformiad
- Darpariaeth Rheolwr Gweithredol

Mae'r ddogfen hefyd yn rhoi'r diweddaraf am hynt y Cynllun Risg gwreiddiol, a'r cynllun gweithredu 2il flwyddyn y llynedd.

2.3 Mae'r Cynllun Risg drafft sy'n dilyn yn benllanw gwaith dwys rhwng yr Aelodau a'r Swyddogion dros y 3 mis diwethaf.

3. **ARGYMHELLION**

3.1 Bod yr Aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad.

3.2 O ganlyniad i gyfarfod Gweithgor y Cynllun Risg yn gynharach ar 13eg Rhagfyr 2005, bod yr Aelodau'n diwygio'r cynllun gweithredu 3edd flwyddyn fel sy'n briodol.

3.3 Bod yr Aelodau'n cymeradwyo'r cynllun gweithredu 3edd flwyddyn drafft (gydag unrhyw welliannau) i'w gyflwyno gerbron cyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub ar 19eg Rhagfyr 2005.